## Disgrifiad o'r Rôl

| | |
|---|---|
| **Y Rôl** | Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro Llandudno - Cadeirydd Annibynnol |
| **Lleoliad** | Llandudno – Ardal Gymdogaeth Balchder Bro (Tudno 1, Tudno 2 a Mostyn 2) |
| **Ymrwymiad Amser** | Tua 8-10 awr y mis (mwy o ymrwymiad yn debygol yn ystod y flwyddyn gyntaf) |
| **Tymor:** | Hyblyg - 2-3 blynedd i ddechrau gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn |
| **Cydnabyddiaeth Ariannol:** | Gwirfoddol - byddwn yn ad-dalu treuliau rhesymol<br><br>Sylwer: Er mai rôl wirfoddol yw hon, gellir gwneud taliad sylfaenol o gyllid capasiti penodol y rhaglen i gydnabod eich amser os na allech fforddio gwneud y rôl fel arall. |

## 1. Beth yw'r rhaglen Balchder Bro?

Mae'r Rhaglen Balchder Bro yn fuddsoddiad hirdymor gan Lywodraeth y DU gyda'r bwriad o rymuso pobl leol, cryfhau cymunedau a chefnogi newid trawsnewidiol.

Mae Llandudno wedi llwyddo i gael buddsoddiad drwy'r Rhaglen Balchder Bro ar gyfer rhannau o wardiau Tudno a Mostyn a bydd yn cael hyd at £20 miliwn dros 10 mlynedd. Pobl leol fydd yn penderfynu sut i adfywio'r ardal.

Mae gan y Rhaglen Balchder Bro dair o amcanion craidd:

Creu cymunedau cryfach: Dylai bod perthnasau cryf a synnwyr cyfun o berthyn i'w cymuned ym mhobman. Bydd hyn yn helpu i ddod â phobl ynghyd i feithrin cadernid a chydlyniant cymunedol, gan helpu pobl i deimlo'n falch o'u hardal a theimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth.

Creu lleoedd llewyrchus: Mae pob rhan o'r DU yn haeddu cael cymdogaethau a chymunedau bywiog gyda strydoedd mawr prysur, ystod dda o amwynderau lleol ac isadeiledd ffisegol o ansawdd uchel.

Grymuso pobl i gymryd rheolaeth yn ôl: Mae talent yn cael ei ledaenu'n gyfartal, ond nid cyfleoedd. Dylai bawb gael eu grymuso a theimlo rheolaeth dros eu bywydau a chael dweud eu barn am ddyfodol eu cymuned.

Mae mwy o fanylion a gwybodaeth gefndir ar gael yn [Pride in Place Programme: prospectus - GOV.UK]

## 2. Pwrpas y Rôl:

Rydym yn chwilio am Gadeirydd Annibynnol i ffurfio Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro Llandudno a'i arwain.

Prif waith y Cadeirydd yw bod yn gefnogwr y gymuned leol, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu harwain gan y preswylwyr a bod ystod amrywiol o leisiau'n cael eu clywed.

Dyma gyfle unigryw, i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y gymuned, i'r gymuned a bod lleisiau lleol yn ffurfio gweledigaeth ar gyfer newid 10 mlynedd y Rhaglen Balchder Bro. Bydd Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro yn arwain a goruchwylio datblygiad a darpariaeth y weledigaeth 10 mlynedd dan arweiniad y gymuned i rannau o ardaloedd Tudno a Mostyn yn Llandudno.

### Bydd y Cadeirydd Annibynnol yn:

- Gweithredu fel cefnogwr y gymuned, gan ymgorffori ysbryd arweinyddiaeth leol – defnyddio ymgysylltu cynhwysol i sicrhau bod lleisiau sy'n cael eu tangynrychioli yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi drwy gydol y broses.
- Arwain y Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro, arwain trafodaethau strategol a sicrhau llywodraethu effeithiol, tryloyw sy'n canolbwyntio ar y gymuned.
- Dod â Bwrdd Cymdogaeth amrywiol at ei gilydd â lleisiau i ffurfio gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol, gyda mwyafrif yr aelodau'n dod o'r gymuned leol - yn byw neu'n gweithio yn yr ardal.
- Arwain, cefnogi a goruchwylio datblygiad a darpariaeth y Cynllun Balchder Bro 10 mlynedd drwy arweinyddiaeth ar y cyd.
- Gweithio'n agos gydag asiantaethau cyhoeddus, partneriaid a'r awdurdod lleol fel y corff atebol.

Mae hon yn rôl strategol, nid gweithredol, sy'n canolbwyntio ar alluogi arweinyddiaeth gymunedol – i feithrin consensws a sicrhau bod blaenoriaethau'r Gymdogaeth wrth wraidd pob penderfyniad yn hytrach na darparu prosiectau o ddydd i ddydd.

## 3. Cyfrifoldebau Allweddol

### Arweinyddiaeth a Llywodraethu

- Arwain y gwaith o recriwtio'r bwrdd cymdogaeth gan sicrhau ei fod yn amrywiol ac yn cynrychioli'r rhai sy'n byw a gweithio yn yr ardal.
- Gweithio gyda'r Aelod Seneddol lleol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gymeradwyo aelodaeth derfynol y bwrdd.

- Arwain cyfarfodydd y Bwrdd Cymdogaeth a'u cadeirio, gan sicrhau eglurder, tegwch a phroses gwneud penderfyniadau effeithiol.
- Meithrin consensws a llywio unrhyw anghytuno'n dawel, yn ddiduedd ac yn adeiladol.
- Sicrhau bod cynrychiolaeth amrywiol o breswylwyr, grwpiau a buddiannau lleol ar y Bwrdd.
- Hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd yng ngweithgareddau'r Bwrdd.
- Deall materion, heriau a chyfleoedd lleol.

### Arwain Rhaglen Strategol

- Arwain y gwaith o ddatblygu, mireinio a monitro'r Cynllun Balchder Bro 10 mlynedd.
- Cydweithio gyda'r awdurdod lleol (fel corff atebol), gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid.
- Sicrhau bod gwaith y Bwrdd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned a'i fod yn parhau i gyd-fynd ag amcanion y rhaglen.

### Ymgysylltu â'r Gymuned

- Cefnogi ymgysylltu cynhwysol ac ystyrlon â'r gymuned, gan sicrhau bod lleisiau sy'n cael eu tangynrychioli'n cael eu clywed. Gweithredu'n rhagweithiol i ddod â grwpiau cymunedol ynghyd ac annog cyfranogiad agored a theg.
- Gweithio'n greadigol ac ar y cyd i ddod â phreswylwyr, grwpiau cymunedol, busnesau a phartneriaid cyhoeddus at ei gilydd i ddatblygu Cynllun Balchder Bro Llandudno. Cynrychioli'r Bwrdd yn allanol, fel wyneb cyhoeddus credadwy yn y gymuned.

## 4. Gwerthoedd ac Uniondeb

Disgwylir i'r Cadeirydd gynnal safonau ymddygiad uchel, yn cynnwys cyfrinachedd a bod yn ddiduedd a chadw at egwyddorion diogelu.

Mae'n rhaid i'r Cadeirydd **beidio** â:

- Thra-arglwyddiaethu ar y broses gwneud penderfyniadau neu weithredu fel yr unig "arbenigwr".
- Ceisio bwrw ymlaen â'i agenda ei hun neu ffurfio cliciau cyfyngedig.
- Gweithredu fel porthor sy'n rhwystro cyfranogiad ehangach.

## 5. Sgiliau a Rhinweddau

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl â chysylltiad personol agos ag ardaloedd Tudno a Mostyn yn Llandudno. Nid oes angen profiad arwain ffurfiol (os oes angen, gellir rhoi hyfforddiant) - mae'r rhaglen yn gwerthfawrogi profiad bywyd ac arweinyddiaeth wedi'i wreiddio yn y gymuned.

### Hanfodol

- Credadwy, yn ennyn parch ac ymddiriedaeth yn lleol.
- Deall materion, heriau a chyfleoedd lleol. Teg, pwyllog ac wedi ymrwymo i arweinyddiaeth gynhwysol.
- Gallu dod â safbwyntiau gwahanol ynghyd a meithrin consensws.
- Hwylusydd trafodaethau cryf, yn enwedig pan fydd safbwyntiau'n amrywio.
- Digynnwrf dan bwysau a meddu ar sgiliau rheoli gwrthdaro da.
- Yn barod i ddysgu ac yn fodlon gwrando ar adborth a datblygiad.
- Digon o amser i flaenoriaethu'r rôl.
- Gallu cydweithio gyda phartneriaid a phreswylwyr.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf.

### Dymunol

- Arweinyddiaeth gymunedol.
- Profiad o gadeirio byrddau, pwyllgorau neu grwpiau cymunedol a hwyluso trafodaethau grŵp.
- Profiad o lywodraethu, gwaith partneriaeth neu adfywio.

## 6. Pam ymgeisio?

- Dyma gyfle unigryw i wneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy lunio a chefnogi newid trawsnewidiol hir dymor yn y Gymdogaeth Balchder Bro yn wardiau Tudno a Mostyn Llandudno.
- Sicrhau bod lleisiau'r gymuned yn arwain y broses gwneud penderfyniadau'n lleol.
- Gweithio ochr yn ochr â phreswylwyr, partneriaid ac arweinwyr lleol i greu gweledigaeth 10 mlynedd ar y cyd.
- Bod yn rhan o raglen a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n cryfhau cymunedau ym mhob cwr o'r Deyrnas Gyfunol.

## 7. Sut i Wneud Cais:

### Dolen i'r cais:

### Dyddiad cau ceisiadau:

**23:59 Dydd Iau 16 Ebrill 2026 (Cyfweliadau ddydd Llun 27 Ebrill)**

### I gael sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch â:

Cllr Julie Fallon Cynghorydd Julie Fallon Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: 0786 023 2641 cllr.julie.fallon@conwy.gov.uk

Claire Hughes AS Bangor Aberconwy:  01248 660797
claire.hughes.mp@parliament.uk